

mwyn ystyried beth y gellid ei wneud dros yr achos. Ond y prif weithgaredd oedd y parti te mawreddog a gynhaliwyd yn y Music Hall yn Lerpwl ar yr ail o Fai 1849, mynediad trwy docynnau swllt y gellid eu prynu oddi wrth dros ddeugain o Gymry blaenllaw glannau Mersi.

Yn ogystal â'r mwyafrif o weintodion Cymraeg Lerpwl, mynychwyd y cyfarfod gan gefnogwyr blaenllaw eraill megis Hugh Pugh, Mostyn, ac Owen Jones 'Meudwy Môn'.

Rhwystriwyd Lewis Edwards rhag bod yn bresennol, ond danfonodd lythyr yn galw am 'ymdrech egniol a chyffredinol i gynnal yr unig newyddiadur Cymraeg sydd genym i amddiffyn ein rhyddid crefyddol a gwladol'.

Rhwng yr areithiau diddanwyd y gwsteion gan y Gymdeithas Gerddorol Gymreig dan arweiniad hen gyfaill i'r *Amserau*, John Ambrose Lloyd. Llwyddodd casgliad dan ofal John Jones i gasglu bron £32 yn y fan a'r lle, ac ychanaegwyd yn sylweddol at hyn yn ystod y misoedd canlynol.

Derbyniwyd nifer o roddion o wahanol barthau o Gymru yn ystod yr haf - pum swllt, er enghraifft, o Landdeiniolen cyn diwedd Awst. Daeth ambell i rodd o'r tu allan i Gymru: casglwyd dwy bunt mewn parti te a gynhaliwyd gan grefftwyr o Gymru a gyflogwyd yng ngwaith hacarn Motherwell yn yr Alban.

Cyfrannwyd yr elw o ddarlithiau a draddodwyd gan Hiraethog yn Nhanygrisiau a'r Bala a gan John Phillips ym Mangor i'r gronfa. Ond er i'r gweithgareddau gasglu bron £79 tuag at y ddyled o bron £350, bu'n rhaid yn y pen draw i ymddiriedolwyr yr hen gwmi fod yn gyfrifol am y gweddill. Gwyddom, er enghraifft, i un ohonynt, Joseph Williams, orfod talu ei gyfran o dros £14.

Prif amcan y geithgareddau hyn oedd talu'r hen ddyled, sef dyled y cwmni a oedd yn berchen ar yr *Amserau* cyn iddo gael ei drosglwyddo i Lloyd. Cwynodd Lloyd mai ychydig iawn o'r elw a roddwyd iddo ef er mwyn ei gynorthwyo i gadw'r newyddiadur yn fyw.

Bu'n rhaid felly iddo wasgu'n dynnach ar ei ddyledwyr yn ystod 1849, gan barhau'r polisi a fabwysiadwyd ganddo ym mis Awst 1848 o gyhoeddi enwau'r dyledwyr mwyaf haerllog.

Ar ôl llawer o fygythion ceisiwyd erlyn nifer o ddosbarthwyr anonest ond yn anffodus 'roedd yn anodd dod o hyd i lawer ohonynt. Yn achos Emanuel Jones o'r Rhymni, gwr a ymfudodd i'r Unol Daleithiau heb dalu ei ddyled sylweddol o dros ddeg punt, y cyfan y gallai Lloyd ei wneud oedd atgoffa'r darllenwyr am fodolaeth cyfraith uwch na chyfraith gwlad!

(I barhau)

Stori brin Mynydd y Gof

FFERM BRAF ar gyrion pentref Bodedern, Môn, yw Mynydd y Gof. Rhoddwyd enw'r fferm yn deitl i gyfrol Saesneg o atgofion a gyhoeddwyd yn 1905, cyfrol y clywswn amdani pan oeddwn yn ifanc.

Wrth seiadu â'r diweddar Barchedig R.G. Owen, Bangor, deuthum i wybod fod gan Mr Gilbert Williams, Rhostryfan, frawd yn Lloegr a oedd yn berchen copi o'r gyfrol. Yn Rhagfyr 1966 cysylltais â'r brawd hwn, F. Williams, a'r diwedd fu i mi brynu ei gopi ef am £10.

Teitl llawn y gyfrol, sy'n cynnwys 443 o dudalennau, yw *Mynydd-y-gof, or the History of a Welsh Calvinistic Family* a'r awdur oedd 'A "Lax"; one of themselves'. Argraffwyd y gyfrol gan 'W. Jolly & Sons' Aberdeen ac fe'i cyhoeddwyd gan 'Swan, Sonnenschein & Co., Ltd.' Ar y

Gan DAFYDD WYN WILIAM

clawr a'r wyneb-ddalen ceir y cymal 'For Private Circulation'.

Ganed Robert Roberts (1828-1916), yr awdur, ym Mynydd y Gof, Bodedern, 8 Chwefror 1828, yn fab i Dr David Roberts a Sarah Foulkes ei wraig, ac fe'i bedyddiwyd yng Nghapel Pen-y-bryn, Bodedern (dros y ffordd i'r capel presennol 'Gilgal') 24 Chwefror gan y Parchedig John Elias. 'Roedd y rhieni yn Fethodistiaid Calfinaidd pybyr.

Pan oedd y mab Robert yn chwech oed bu farw Hugh Lloyd, Caer, masnachwr te cyfoethog, ac ewythr i'w fam. Etifeddodd y fam ran o gyfoeth yr ewythr a daeth teulu Mynydd y Gof yn dda eu byd.

Yn 1900, ac yntau wedi ymsefydlu ym Manceinion ers trigain mlynedd, fe benderfynodd

Robert Roberts, ar ôl claddu ei wraig, ymroi i ysgrifennu atgofion chwarter canrif cyntaf ei oes, 1828-54. Bum mlynedd wedi hynny cyhoeddwyd yr atgofion hynny yn y gyfrol *Mynydd-y-gof*.

Ymranna'r atgofion yn dair, sef atgofion am gyfnod plentyndod 1828-37 ym Modern, atgofion am Academi Castle Hill, Treffynnon, lle bu'n ddisgybl 1837-40, ac atgofion am ei flynyddoedd cyntaf ym Manceinion 1841-54, pryd y bu'n ddisgybl am flwyddyn yn Dais Bank School, Victoria Park ac yn was yn rhai o fasnachdai'r dref.

Sefydlodd ei fasnach ei hun yn 1855 a phriododd wraig 19 Gorfennaf 1860.

* * *

HYNODRWYDD cyfrol Robert Roberts yw fod ynddi ddarlun byw iawn o fywyd ym Modern, Treffynnon a Manceinion yn ystod cyfnodau yn y ganrif ddiwethaf. I mi, wrth gwr, disgrifiad yr awdur o fywyd bob dydd teulu o Fethodistiaid amlwg ym Modern sy'n bwysig.

Enwir lluo o drigolion y fro a chyfeirir at ddigwyddiadau diddorol, gyda disgrifiadau o'r addoliad teuluidd ym Mynydd y Gof, oedfaon yng nghapel y Methodistiaid, Bodedern, gwaith y fferm, a phob math o bethau eraill. Glynir yn ffyddlon wrth enwau'r bobl ac eithrio mewn un, neu efallai ddau achos.

* * *

CREDAF mai enw flug yw Ebenezer Watkin, siopwr o Fethodist ym Modern y cyfeirir ato yn y llyfr. Adroddir fel y byddai'r gŵr hwn yn cyfeillachu â Dr Jones, Llynon, Llanddeusant, a'r ddau yn trin arian mewn ffordd amheus.

Ym mhennod olaf y gyfrol adrodda'r awdur iddo ymweld â Bodedern, rywdro ar ôl 1855, a chlywed y newydd syfrdanol fod Dr Jones wedi saethu ei hun. Clywodd hefyd fod merch ifanc, a weithiau yng ngardd Llynon ar y pryd, wedi clywed Ebenezer Watkin a Dr Jones yn sffraeo ac yn ysgarmesu cyn clywed egydd gwn.

Gwysiwyd Ebenezer Watkin i ymddangos gerbron Ustusiaid ym Modern a barnwyd y dylai wynebu ei well ym Mrawdlys Biwmares. Daeth yn rhydd ac ymfudodd, meddai awdur *Mynydd-y-gof* i Wisconsin, yn Unol Daleithiau'r America.

Y mae'n amheus gennyf a argraffwyd llawer o gopiâu o *Mynydd-y-gof*. Ac eithrio'r copi a roddodd Bob Owen Croesor i Lyfrgell Llangefni ni welais ac ni chlywais am gopi arall ym Môn ac eithrio fy nghopi i Gwerthodd Wingett, Wrecsam gopi tua saith mlynedd yn ôl, os cofiai yn iawn. Ceir copi glân iawn o'r gyfrol yn Llyfrgell Coleg y Gogledd.

GAIR I'CH CYFARCH

Gan DAFYDD M. JONES

CASGLU llyfrau, lluniau neu lestri - a ellir ychwanegu casglu llofnodion? Heddiw cyfyngir yr arferiad i gasglu llofnodion sêr pop, pêl-droedwyr, actorion, ac ati, ond yn y dyddiau a fu ceid llawer yn cadw llyfr llofnodion, neu albwm, a hwnnw'n tyfu'n raddol dros y blynyddoedd gan gynnwys cyfraniadau gan aelodau o'r teulu, cyfeillion, athrawon, ac ati, yn ogystal â phersonau eraill o fri.

Yn ychwanegol at dorri enw ar y llyfr, ceid aml un ychwanegu pennill neu ddarn o ryddiaith. Yn ei gyfrol *Mynd a Dod* mae Crwys yn cyfeirio at yr arferiad:

"Cyn ysgwyd llaw a chanu'n iach, y ddyletswydd olaf mewn llu o fannau fyddai ysgrifennu yn yr albwm. Nid rhywydd ysgrifennu dim tarawiadol ar y pryd. Pe cawswn ysgrifennu ar ôl ymadael fe ddoi rhywbeth i'r meddwl. Yr oedd pawb yn disgwyl cael pennill gwreiddiol a newydd, a byddai canmol ar fy ngwaith pes canmolwn innau hwythau."

Yn anffodus, ar dro, ni chrybwyllir enw'r awdur, a gellid maentumio mai gwaith gwreiddiol ydyw sydd hwyrach heb ymddangos mewn print ar ôl hynny.

Mae yn fy meddiant llyfr llofnodion o eiddo fy Mam, a ddefnyddiwyd ganddi rhwng 1911 a 1921. Ar wahân i bethau ystrydebol Saesneg, megis

By hook or by crook,
I'll be last in this book,

neu stamp post ar ganol tudalen, gyda'r geiriau "By gum: I'm stuck", mae'n cynnwys nifer o gyfraniadau diddorol.

Bu hi am gyfnod yn ystod Rhyfel 1914-18 yn nyrs wirfoddol (VAD) yn Ysbyty Machynlleth, a gwelir yn y llyfr gyfraniadau gan filwyr clwyfedig - un ohonynt wedi'i glwyfo yn Ypres yn 1917 ac yn dal yn yr Ysbyty dri mis ar ôl hynny.

* * *

'ROEDD ei chartref - Glanrhyd, Carno - yn dŷ capel "answyddogol" i Eglwys y Wesleyaid Llwyn-hen, Carno. (Sylwaf bod yr adeilad bellach wedi mynd â'i ben iddo, ond bod yr aelodau yn cyfarfod mewn adeilad arall cyfagos.)

Bu gweinidogion a phregethwyr o lawer enwad, a darlithwyr, yn lletya yn Glanrhyd, a cheir yn y llyfr gyfraniadau gan nifer ohonynt gan gynnwys Bedford Roberts; D.Tecwyn Evans; W.Crwys Williams; E.Tegla Davies; G.E.Roberts (Maentwrog), a'i frawd, Evan Roberts, a oedd yn gyfaill mynwesol i Tegla; J.Roger Jones; Dvid R.Thomas (Llwyngwril); Evan Isaac a W.Wellesley Jones.

Ceir cyfrachiad gan Crwys dyddiedig 13 Ebrill 1917. Mae'n dyfynnu pennill cyntaf "Caru Cymru" fel yr ymddengys yn ei weithiau cyhoeddedig, ac mae wedi ychwanegu pedair llinell na welais mewn print sef

Wrth odre'r mynyddoedd,
Heb olud na gwleddoedd

Dymunwn gael treulio fy nyddiau i ben
Does un darn o'r ddaear fel hen
Gymru wen.

Un o blant Carno oedd William Morgan (Collwyn) ond a dreuliodd ei oes yn Lerpwl yn gwasanaethu'r gymdeithas Gymraeg yno. Cofir am ei englyn i "Ann Griffiths" gyda'r esgyll:

Erys am fyth heb oeri
Farworyn ei hemyn hi.